

# Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell

Canllawiau Cynllunio Atodol



**Cymeradwywyd Tachwedd 2017**



## Cynnwys

		<b>Tudalen</b>
1.	Cyflwyniad	2
2.	Cyd-destun Cynllunio ac Iechyd Y Cyhoedd	5
3.	Cynllunio ar gyfer Themâu Iechyd a Chanllawiau	12
4.	Lleoliad Cyfleusterau Gofal Iechyd	19
5.	Rhestr Wirio Cynllunio Dinesig Iach	20
Atodiad A	Polisiâu CDLL Perthnasol	22
Atodiad B	Cysylltiadau â CCAau eraill	24
Atodiad C	Darnau o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru - Mesur Tueddiadau Anghydraddoldeb 2016 o ran Marwolaeth a Disgwyliad Oes yn BIP Caerdydd a'r Fro	25
Atodiad D	Rhestr o Gyfeiriadau	31
Atodiad E	Ymgynghoriad ar y CAA Drafft	32
Atodiad F	Crynodeb o'r Sylwadau a'r Ymatebion ar yr Ymgynghoriad	36

**This document is available in English/Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r CCA hwn yn ategu polisiau yn Cynllun Datblygu Lleol (CDLL) mabwysiedig Caerdydd yn ymwneud ag iechyd a chynllunio ac mae wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhyngweithiad hwn yn tanlinellu'r ffaith na ystyrir iechyd na chynllunio ar wahân.
- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi defnydd Canllawiau Cynllunio Ategol (CCA) i nodi canllawiau manwl ar y ffordd y caiff polisiau cynllunio datblygu eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i'r CCA fod yn gyson â pholisiau cynllunio datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Mae CCA yn helpu i sicrhau bod polisiau a chynigion penodol yn cael eu deall yn well a'u rhoi ar waith yn fwy effeithiol ac yn tynnu sylw at ganllawiau polisi (iechyd) perthnasol na sonnir amdanynt yn y cynllun datblygu. Nid oes ganddynt yr un statws â'r cynllun datblygu mabwysiedig ond maent yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
- 1.3 Diben y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hwn yw:
  - Rhoi gwybodaeth ategol ac arweiniad i gynllunwyr, datblygwyr a buddsoddwyr am sut mae ein hamgylchedd a'r penderfyniadau cynllunio yr ydym yn eu gwneud yn effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth.
  - Helpu i wireddu gweledigaeth y Cyngor o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a dod yn ddinas arweiniol yn fyd-eang fel y nodir yn y Ddogfen Uchelgais Prifddinas.
  - Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol a lleol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
  - Cynnig arweiniad ar gyfer mynd i'r afael ag effaith yr amgylchedd naturiol ac wedi adeiladu ar iechyd a llesiant yn rhan o ddull strategol o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd y ddinas a hybu dewisiadau bywyd iach.
  - Rhoi arweiniad ar leoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd.
  - Bod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio trwy nodi ystod o ffactorau posibl yn ymwneud ag iechyd a llesiant y dylai datblygwyr eu hystyried wrth lunio cynigion datblygu.
- 1.4 Mae gan bolisi cynllunio lleol rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl allu gwneud penderfyniadau bywyd iachach a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Mae tystiolaeth aruthrol sy'n dangos bod iechyd a'r amgylchedd wedi'u cysylltu'n annatod a bod amgylcheddau gwael, megis ansawdd awyr gwael, yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd gwael ac anghydraddoldeb iechyd. Mae'r CCA hwn yn helpu i ddatblygu ffordd o ystyried canlyniadau iechyd a llesiant trwy'r broses gynllunio trwy roi arweiniad manwl ar wneud penderfyniadau cynllunio.
- 1.5 Mae'r ddogfen yn canolbwyntio ar yr egwyddorion cynllunio dinesig iach a nodir ym mhennod 3, sy'n tynnu sylw ar yr holl gysylltiadau sylfaenol rhwng cynllunio ac iechyd.
- 1.6 Ceir Rhestr Wirio yn y ddogfen (pennod 5) sy'n nodi ystod i ffactorau yn ymwneud ag iechyd y dylai datblygwyr eu hystyried wrth lunio cynigion.
- 1.7 Ystyrir y CCA hwn gan y Cyngor wrth iddo wneud penderfyniadau cynllunio cynaliadwy. Mae'r CCA yn cynnwys gwybodaeth am sut gellir effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant trwy gynllunio'n dda, a bydd yn rhoi arweiniad ar sicrhau yr ystyrir goblygiadau iechyd unrhyw ddatblygiad newydd.

- 1.8 Mae cynllunio da'n golygu cysylltu materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd â strategaethau asiantaethau cyhoeddus a darparwyr gwasanaeth gyda'r bwriad o greu lleoedd hygyrch, diogel a deniadol i fyw. Mae hyn, yn ei dro, yn gwella ansawdd bywyd a llesiant unigolion a chymunedau. Mae datblygu cymunedau cryf, iach a bywiog yn hanfodol er mwyn sicrhau llesiant poblogaeth y ddinas ac mae felly gan gynllunio rôl hollbwysig i'w chwarae i sicrhau y hybir iechyd a llesiant ac y eir i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd. Rhaid i iechyd a llesiant cymunedau ddechrau gyda'r broses gynllunio. Derbynnir, os oes gan gymunedau ac unigolion mynediad hawdd at gyfleusterau a gwasanaeth, siopau bwyd iach, cyfleoedd cyflogaeth lleol, dewisiadau teithio cynaliadwy a manau cyhoeddus gwyrdd ac agored wedi'i dylunio'n dda, y byddant yn fwy actif, hapus ac iach. Dylai polisiâu cynllunio a lleoliad datblygiadau a chyfleusterau newydd alluogi pobl i gael dewis o leoedd deniadol o ansawdd i fyw a'u galluogi i ddefnyddio'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt ac i'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt i'w cyrraedd.
- 1.9 Mae llawer o ymchwil a chanllawiau wedi'u creu yn y blynyddoedd diwethaf ynglŷn â ffyrdd o wella iechyd a llesiant trwy gynllunio gofodol iach (pennod 3). Mae gweithwyr proffesiynol a chynllunwyr iach bellach yn mabwysiadu dull llawer mwy cydweithredol o weithredu polisiâu cynllunio neu gyflwyno cynllunio ar gyfer canllawiau iechyd sy'n galluogi iechyd i gael ei gynnwys yn ein hamgylchedd cyn gynted â phosibl. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'dylunio iechyd i mewn' yn debyg iawn i ffordd y gallwn 'dylunio trosedd allan'. Gall hyn fod yr un mor bwysig â buddsoddi mewn gofal iechyd ond tra bod gofal iechyd yn trin symptomau, gall cynllunio dinesig iach helpu i fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb iechyd ac iechyd gwael.

### **Sut y dylid defnyddio'r canllaw hwn**

- 1.10 Bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r CCA yn nodi'r meysydd lle y mae cynllunio'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd yn ffurf themâu ac yn cyflwyno rhestr o argymhellion ar gyfer pob thema. Ceir Rhestr Wirio Cynllunio Dinesig Iach ym mhennod 5 sy'n nodi ystod o faterion yn ymwneud ag iechyd y dylai datblygwyr eu hystyried wrth baratoi cynigion.
- 1.11 Mae'r CCA hwn yn nodi'r sail ar gyfer trafodaethau ar gam cyn gwneud cais i sicrhau bod iechyd a llesiant yn ystyriaeth gynnar yn y broses gynllunio. Yn ogystal, dylai'r canllaw roi gwybod i broiectau ac uwchgyllun adfywio mwy a'r bwriad yw i gynllunwyr a datblygwyr/buddsoddwyr ei ddefnyddio.

### **Strwythur y Ddogfen**

- 1.12 Mae'r CCA hwn yn dechrau trwy nodi lleoliad y ddogfen yn y fframwaith cynllunio a sut mae'n cysylltu â'r agenda iechyd a llesiant ehangach. Mae pennod 3 yn dogfennu'r cysylltiadau strategol rhwng cynllunio ac iechyd ac yn tynnu sylw at yr anghydraddoldeb ym maes iechyd sy'n bodoli yn y ddinas ar hyn o bryd. Mae pennod 4 yn canolbwyntio ar leoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd ac mae pennod 5 yn cynnwys rhestr wirio cynllunio dinesig iach sy'n nodi rhestr o faterion y dylai datblygwyr eu hystyried wrth baratoi cynigion datblygu.

### **CCA Rhwymedigaethau Cynllunio**

- 1.13 Nid diben y CCA hwn yw nodi sut y pennir rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd newydd. Nodir hyn yn fanwl yn y CCA Rhwymedigaeth Cynllunio<sup>1</sup>.

---

<sup>1</sup> [https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Planning/Planning-Policy/Documents/Cardiff%20Planning%20Obligations%20SPG%20-%20Edition%201%20\(26th%20January%202017\).pdf](https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Planning/Planning-Policy/Documents/Cardiff%20Planning%20Obligations%20SPG%20-%20Edition%201%20(26th%20January%202017).pdf)

## 2. Cyd-destun Cynllunio ac Iechyd Y Cyhoedd

### Canllaw Cynllunio Cenedlaethol

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.1 Cysylltir iechyd pobl a datblygu cynaliadwy yn annatod ac mae camau gweithredu ar lefel leol yn benodol bwysig i gyflawni datblygu cynaliadwy, iach. Mae datblygu cynaliadwy yn cwmpasu dimensiynau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol-demograffig gan gynnwys iechyd. Mae'r Ddeddf yn cynnig diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy ac yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y genhedlaeth bresennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu genedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.
- 2.2 Mae datblygu cynaliadwy yn tansellio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd ymwreiddio'r cysyniad ym mhob rhan o'r system gynllunio yn cefnogi Cyngor Dinas Caerdydd yn y gwaith o gyflawni cynnydd yn erbyn y 7 Nod Llesiant ac yn cyd-fynd â Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r Nodau Llesiant yn cynnwys ystod llawn o faterion cynaliadwyedd (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol) gan gynnwys materion iechyd ac mae Polisi Cynllunio Cymru wedi awgrymu'r amcanion cynaliadwyedd canlynol ar gyfer y system gynllunio:
- **Cymru Ffyniannus.** Mae gan y cynnig neu'r cynllun y cyfle i gefnogi patrymau setlo gwydn o ran newid yn yr hinsawdd ac effeithlon o ran adnoddau.
  - **Cymru Gydnerth.** Mae gan y cynnig neu'r cynllun y cyfle i amddiffyn a gwella'r amgylchedd, er mwyn gwella ansawdd bywyd ac amddiffyn ecosystemau lleol a byd-eang.
  - **Cymru Iach.** Mae gan y cynnig neu'r cynllun y cyfle i gyfrannu at y gwaith o amddiffyn a gwella iechyd a llesiant pobl ac ymateb i newid yn yr hinsawdd. Ceir y posibilrwydd o gefnogi unigolion a chymunedau i gael mynediad at drafnidiaeth lesol a chynaliadwy, mynediad at fwyd iach a dyfir yn lleol a'u dyfu, i ddefnyddio gweithgareddau hamdden lleol a mannau gwyrdd agored a gynhelir yn dda, i ddioddef llai o lygryddion a throedd, i fyw mewn cymdogaethau diogel, i gael ffyrdd diogelach a llai o anafiadau/damweiniau ac i gael mynediad at fannau chwarae diogel.
  - **Cymru Fwy Cyfartal.** Mae gan y cynnig neu gynllun hwn y cyfle i hybu mynediad at gyflogaeth, siopa, addysg, iechyd, cymuned, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a mannau gwyrdd ac agored, mwyhau cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a llesiant cymdeithasol. Dylai'r cynnig neu'r cynllun ystyried sut y defnyddir y datblygu gan grwpiau amrywiol ac ar bob cam o fywyd.
  - **Cymru â chymunedau cydlynol.** Mae gan y cynnig neu'r cynllun y cyfle i leoli datblygiadau sy'n lleihau'r galw am deithio, sicrhau bod gan yr holl gymunedau tai o ansawdd digonol mewn cymdogaethau diogel, maethu gwelliannau i gyfleusterau trafnidiaeth a gwasanaethau a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol. Bydd sicrhau nad yw cynigion datblygu yn arwain at dorri cymunedau na gweithredu fel rhwystrau at hygyrchedd yn ystyriaethau pwysig.
  - **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.** Mae gan y cynnig neu'r cynllun y cyfle i helpu i sicrhau y cedwir yr amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth ddiwylliannol a chyfrannu'n gadarnhaol at lesiant yr iaith Gymraeg.
  - **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.** Mae gan y cynnig neu'r cynllun y cyfle i gefnogi'r angen i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd trwy symud tuag at economi carbon isel.

- 2.3 I arddangos bod yr egwyddor 'datblygu cynaliadwy' wedi'i roi ar waith, bydd angen i gyrff y sector cyhoeddus
- Edrych i'r hirdymor
  - Canolbwyntio ar atal
  - Ymgymryd â dull integredig o gyflawni'r Nodau Llesiant
  - Gweithredu mewn cydweithrediad ag eraill
  - Cynnwys pobl a chymunedau sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant.
- 2.4 Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y ddyletswydd hon wrth asesu ceisiadau cynllunio i asesu effaith y datblygu arfaethedig ar gyflawni'r Nodau Llesiant. Dylai datblygwyr wrth gyflwyno cynigion asesu sut mae eu cynnig yn effeithio ar y Nodau Llesiant.
- 2.5 Bydd y CCA yn cynorthwyo'r Cyngor a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd gyda mynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei blaen, y ffyrdd o weithio a Chynlluniau Llesiant. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<sup>2</sup> wedi annog cryfhau cysylltiadau rhwng y Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Cynlluniau Llesiant ac yn cefnogi ystyried rôl lleoedd a mannau yn llesiant pobl.

### **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2015**

- 2.6 Yn unol â'r Ddeddf mae angen i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar nifer y teithiau teithio llesol a wneir yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, ac i adeiladu a gwella eu seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a chreu darpariaeth well iddynt. Hefyd yn unol â hi mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hybu cerdded a beicio fel dull o deithio.
- 2.7 Trwy gysylltu safleoedd allweddol megis gweithleoedd, ysbytai, ysgolion ac ardaloedd siopa â llwybrau teithio llesol, bydd y Ddeddf yn annog pobl i dibynnu'n llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr.

### **Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017**

- 2.8 Bydd y Ddeddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru i wella iechyd ac atal niweidiau iechyd y gellir eu hosgoi. Mae sawl un o'r newidiadau perthnasol yn y Ddeddf yn cynnwys llunio strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gorbwysedd a gofyniad i wneud Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) ar benderfyniadau allweddol.

#### **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI)**

- 2.9 Mae AEI yn broses sy'n helpu i asesu effaith unrhyw newid neu ddiwygiad i bolisi, gwasanaeth, cynllun, gweithdrefn neu raglen ar iechyd y boblogaeth ac ar sut y dosberthir yr effeithiau hynny ymhlith y boblogaeth, yn enwedig ymhlith grwpiau agored i niwed. Mae gwneud AEI yn creu gwybodaeth am sut y gellir lleihau effeithiau negyddol ar iechyd a sut y gellir annog cynnydd iechyd cadarnhaol. Nid oes methodoleg wedi'i gosod ar gyfer paratoi AEIau ond mae gwybodaeth ac offer ar gael gan Uned Cymorth Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cymru <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=522>.

---

<sup>2</sup> ['Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#)



- 2.10 Nid yw AEI yn ofyniad statudol ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygu ar hyn o bryd ond bydd darpariaethau yn Neddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) yn cryfhau sefyllfa AEI yng Nghymru. Trwy wneud y defnydd o AEI yn orfodol mewn amgylchiadau penodol a thrwy ei roi ar waith yn gyson, y bwriad yw sicrhau bod effeithiau posibl yn y dyfodol ar iechyd a llesiant cymunedau neu ar unigolion yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Nodir y manylion technegol a manylion am yr amgylchiadau a'r modd y dylid gwneud AEIau mewn ddeddfwriaeth a ddisgwylir yn ystod 2019.

### **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

- 2.11 Mae'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaeth i grŵp o Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDSau) a gofyniad i Lywodraeth Cymru baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FFDC). Mae hefyd yn cyflwyno gofynion ymgynghori cyn gwneud cais i ddatblygwyr, gan gynnwys ymgysylltu ag ymgynghoreion arbenigol a chymunedol. Mae'r gofynion ymgynghori cyn gwneud cais hyn yn cynnig cyfle i gynnwys effeithiau iechyd yn gynnar yn y broses ddatblygu.

### **Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol**

- 2.12 Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol Cysylltiedig yn nodi arweiniad cynllunio cenedlaethol i awdurdodau lleol yn ymwneud ag iechyd a llesiant. Mae paragraff 4.43 yn dweud, wrth gyfrannu at Nodau Llesiant Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y dylai cynigion, penderfyniadau a pholisïau cynllunio:

*Gyfrannu at y gwaith o wella iechyd a llesiant pobl a'u hamddiffyn, lle bo'n bosibl, fel rhan graidd o gyflawni'r nodau llesiant ac ymateb i newid yn yr hinsawdd. Bydd ystyried effeithiau posibl datblygu – cadarnhaol a/neu negyddol – ar iechyd pobl ar gam cynnar yn helpu i wneud perthnasedd iechyd a'r graddau y mae angen ei ystyried yn glir. – "Cymru Iachach"*

- 2.13 Mae adrannau 4.3 a 4.4 Polisi Cynllunio Cymru ar Gynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd yn nodi'r disgwyliadau gan bawb sy'n gweithio yn y system gynllunio mewn perthynas â chyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn nodi sut y gall penderfyniadau, cynigion a pholisïau cynllunio gyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae ceisiadau cynllunio unigol hefyd yn destun gofynion y Ddeddf. Mae canllawiau statudol manwl wedi'u datblygu i'r cyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus hynny sy'n destun gofynion llesiant.

### **Canllaw Polisi Lleol**

#### **Cynllun Datblygu Lleol**

- 2.14 Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2016 ac mae'n nodi nifer o bolisïau yn ymwneud ag iechyd a nodir isod. Mae'r CCA hwn yn nodi arweiniad manwl ar y ffordd y caiff y polisïau hyn eu rhoi ar waith wrth ystyried cynigion datblygu.

#### **Polisi Allweddol KP14: BYW'N IACH**

**Bydd Caerdydd yn cael ei gwneud yn lle iachach i fyw trwy geisio lleihau anghydraddoldeb iechyd trwy annog dulliau byw iach, mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol iechyd a chreu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch. Cyflawnir hyn trwy gefnogi datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio llesol a hygyrch a manau gwyrdd y gellir eu defnyddio, gan gynnwys rhandiroedd.**



- 2.15 Mae paragraff 4.160 testun cefnogol y polisi hwn yn dweud “*Mae’r Polisi hwn yn cyd-fynd â’r bwriad yn PPW i gyflawni datblygu cynaliadwy trwy sicrhau yr ystyrir iechyd mewn datblygiadau newydd. Mae hefyd yn cynorthwyo â chyflawni nifer o nodau amcanion PCC yn ymwneud â theithio a mynediad at gyfleusterau cymunedol allweddol. Mae’n adlewyrchu’r cyfeiriad y ‘gellir gwneud ystyriaethau iechyd yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio’ (PPW para. 12.13.8) ac yn derbyn bod effaith datblygu ar iechyd pobl yn brif elfen ar ddatblygu cynaliadwy a bydd ei ystyried yn codi unrhyw faterion sylweddol y mae angen eu hystyried.*”

### **Polisi Manwl C6: IECHYD**

**Rhoddir blaenoriaeth mewn datblygiadau newydd i leihau anghydraddoldeb iechyd ac annog dulliau byw iach trwy:**

**i. Nodi safleoedd ar gyfer cyfleusterau iechyd newydd, yn adlewyrchu’r dosbarthiad gofodol o angen gan sicrhau eu bod yn hygyrch ac â’r potensial i gael eu rhannu gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth; a**

**ii. Sicrhau eu bod yn cynnig amgylchedd ffisegol wedi adeiladu sy’n cefnogi rhyng-gysylltu, dewisiadau teithio llesol, hybu dulliau byw iach a gwella diogelwch ar y ffyrdd.**

- 2.16 Mae paragraff 5.340 y testun ategol yn dweud bod “*Bwriad y polisi yw gwella iechyd poblogaeth Caerdydd trwy geisio sicrhau cyfleusterau iechyd newydd mewn ardaloedd sydd â’r angen mwyaf, gofyn bod yr amgylchedd wedi adeiladu yn maethu dulliau bywyd iach a sicrhau bod iechyd yn brif ystyriaeth mewn datblygiadau newydd.*”
- 2.17 Yn ogystal â’r ddau bolisi newydd hyn, mae nifer o bolisiau CDLL a CCAu cysylltiedig eraill megis polisi manwl EN13: Llygredd Aer, Sŵn, Golau a Halogiad Tir. Mae paragraff 5,178 y testun ategol yn dweud bod “*ansawdd awyr gwael yn gallu niweidio iechyd ac ansawdd bywyd pobl ac amwynder. Rhestrir y rhain yn Atodiad A a B.*”

### **Dogfen Uchelgais Prifddinas (2017)<sup>3</sup>**

- 2.18 Bydd gweithredu’r CCA hwn yn helpu i wireddu gweledigaeth y Cyngor o ddod yn ddinas arweiniol yn fyd-eang a gwneud y ddinas yn lle gwych i fyw, gweithio ac astudio ynddi ac ymweld ag ef. Trwy roi canllawiau i ddatblygwyr ar ffactorau’n ymwneud ag iechyd y dylent eu hystyried wrth lunio cynigion datblygu bydd hefyd yn helpu’r ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i leihau anghydraddoldeb iechyd ledled y ddinas.

### **Strategaeth Siapio Ein Llesiant yn y Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro (2015 - 2025)<sup>4</sup>**

- 2.19 Trwy nodi lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd mae gweithredu’r CCA hwn yn cefnogi canolbwynt Strategaeth Siapio Ein Llesiant yn y Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro (2015 - 2025) ar anghenion iechyd a gofal y boblogaeth a’r gwaith o

<sup>3</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/uchelgais-prifddinas/Documents/Capital%20Ambition%20WELSH%20low%20res.pdf>.

<sup>4</sup> <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/10%20-%20UHB%20Shaping%20Our%20Future%20Wellbeing%20Strategy%20Final.pdf>

ddarparu gwasanaeth cynaliadwy ar y cyd. Elfen allweddol ar y Strategaeth hon yw darparu gwasanaethau aml-asiantaeth yn y gymuned mewn cyfleusterau lleol a rennir.

### **Asesiad a Chynllun Llesiant**

2.20 Mae Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf) yn rhoi i'r prif gyrff cyhoeddus a thrydydd sector sy'n gweithio yng Nghaerdydd ddiben cyffredin rhwymol gyfreithiol i wella llesiant diwylliannol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y ddinas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, trwy ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Dan y Ddeddf, rhaid i BGC Caerdydd gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol erbyn mis Mai 2018, sy'n nodi amcanion a rennir ar gyfer gwella llesiant y ddinas. I roi sail tystiolaeth gadarn ar gyfer yr amcanion hyn, mae angen i BGC Caerdydd gyhoeddi Asesiad Llesiant Lleol yn creu barn gynhwysfawr o lesiant y ddinas a'i chymunedau. Mae'r Ddeddf yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff sector cyhoeddus ledled Cymru i gymryd camau i gyflawni saith nod llesiant. Cyhoeddwyd Asesiad Llesiant Caerdydd<sup>5</sup> ym mis Ionawr 2017 ac mae Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cymryd lle Strategaeth Partneriaeth Caerdydd.

### **Cysylltiadau Strategol rhwng Cynllunio ac Iechyd**

2.21 Mae nifer o ddogfennau polisi allweddol yn y system iechyd ac iechyd y cyhoedd yn cefnogi'r ffocws ar fynd i'r afael ag effaith yr amgylchedd ar iechyd.

### **Fframwaith Canlyniadau Iechyd Y Cyhoedd<sup>6</sup>**

2.22 Defnyddir y fframwaith hen i fesur a monitro iechyd poblogaeth Cymru a bydd yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r effaith y mae ein polisiau, rhaglenni, gwasanaethau ac ymddygiadau'n cael ar iechyd a llesiant yng Nghymru. Mae'n cefnogi'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cydnabod y gellir ond yn cyflawni iechyd da a mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach trwy gamau ar y cyd. Bydd y ddogfen llywio'n ddefnyddio'r monitro blynyddol parhaus yn ymwneud â gweithredu'r polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol.

### **Fframwaith Cynllunio GIG Cymru Datblygu system Gynllunio Effeithiol yn GIG Cymru<sup>7</sup>**

2.23 Mae'r Fframwaith Cynllunio hwn yn rhoi arweiniad ar ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI) i bob bwrdd iechyd. Mae CTCIau yn canolbwyntio ar y rôl cynllunio iechyd i ddatblygu a rheoli gwasanaethau gofal iechyd i ymateb i heriau lleol. CTCIau yw'r dull o gryfhau partneriaethau cyfredol a chreu rhai newydd yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae CTCI Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gael yn <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/uhb-medium-term-plan>

<sup>5</sup> <https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Liveable-City-Report/Documents/Well-being%20Assessment%20Summary%20Document.pdf>

<sup>6</sup> <http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/public-health-framework?lang=en>

<sup>7</sup> <http://gov.wales/docs/dhss/publications/131126nhs-wales-planning-framework-en.pdf>

## **Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Cymru hyd at fis Mawrth 2018<sup>8</sup>**

2.24 Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith sydd â'r bwriad o gynorthwyo byrddau iechyd yn y gwaith o ddatblygu a darparu gofal sylfaenol gwell a gwasanaethau gwell yn y gymuned ar gyfer eu poblogaethau lleol.

## **Canllaw Buddsoddi Seilwaith GIG Cymru 2015<sup>9</sup>**

2.25 Mae'r Canllaw hwn yn nodi gofynion ar gyfer cynllunio, cyflawni a rheoli buddsoddiad seilwaith y GIG. Mae'n cefnogi'r defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn rhan o'r broses wneud penderfyniadau o ran cynigion buddsoddi seilwaith.

## **Adnoddau Defnyddiol**

### **Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell yng Nghymru<sup>10</sup>**

2.26 Mae'r ddogfen hon a luniwyd gan y TCPA, Uned Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol am Gynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant.

### **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd – Canllaw Ymarferol<sup>11</sup>**

2.27 Mae'r ddogfen hon a luniwyd gan Uned Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cymru (UAEIC) yn disgrifio'r broses, yn rhoi dulliau ac yn rhestru adnoddau i gefnogi Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI)

### **Cynllunio Gorfodol ar gyfer Iechyd: Adnodd tystiolaeth ar gyfer cynllunio a dylunio lleoedd iach<sup>12</sup>**

2.28 Mae'r ddogfen hon yn nodi canfyddiadau adolygiad tystiolaeth a archwiliwyd y cysylltiadau rhwng iechyd a'r amgylchedd naturiol ac wedi adeiladu i helpu llywio polisi a chefnogi camau gweithredu lleol. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar 5 pwnc amgylchedd wedi adeiladu:

- Dylunio cymdogaeth
- tai
- mynediad at fwyd iach
- amgylchedd naturiol a chynaliadwy
- trafnidiaeth

---

<sup>8</sup> <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150218primaryen.pdf>

<sup>9</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/WHC-2015-012%20-%20English%20Version.pdf>

<sup>10</sup> <https://www.tcpa.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=841c7b10-ffb9-4020-87d0-e71f53512121>

<sup>11</sup> [http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/522/Whiasu%20Guidance%20Report%20\(Welsh\)%20WEB.pdf](http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/522/Whiasu%20Guidance%20Report%20(Welsh)%20WEB.pdf).

<sup>12</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/spatial-planning-for-health-evidence-review>

**Cynllunio Amgylcheddau Pwysau Iach<sup>13</sup>**

- 2.29 Mae'r ddogfen hon a luniwyd gan y TCPA ac iechyd y cyhoedd Lloegr yn adnodd ymarferol i ymarferwyr ei ddefnyddio wrth weithio ynghyd i alluogi creu amgylcheddau pwysau iach trwy'r system gynllunio.


---

<sup>13</sup> <https://www.tcpa.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=7166d749-288a-4306-bb74-10b6c4ffd460>

### 3. Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant – Themâu a Chanllawiau

- 3.1 Yn hanesyddol cysylltwyd cynllunio ac iechyd y cyhoedd yn annatod, gan fynd i'r afael ag iechyd gwael ac amodau glanweithiol gwael a llygredd awyr. Mae'r bwch yn nisgwyliad oes, anghydraddoldeb mewn iechyd, lefelau gorbwysedd sy'n codi, lefelau gweithgaredd corfforol isel ac effaith anghydraddoldeb amgylcheddol ar iechyd y boblogaeth wedi cryfhau'r dealltwriaeth o bwysigrwydd yr amgylchedd wedi adeiladu yn y gwaith o hybu iechyd. Mae llawer o adnoddau sy'n awgrymu bod dyluniad yr amgylchedd wedi adeiladu yn cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol a sut mae pobl yn canfod eu hamgylcheddau. Gall lleoliad, dwysedd a chymysgedd o ddefnyddiau tir gael effeithiau pellgyrhaeddol ar sut mae unigolion yn byw eu bywydau ac mae cael mynediad at wasanaeth cyhoeddus, cyflogaeth, bwyd ffres lleol a mannau gwyrdd agored i gyd yn hollbwysig ar gyfer dulliau bywyd iach.
- 3.2 Mae cynllunio dinesig iach yn ystyried effaith cynllunio polisi ar iechyd a llesiant poblogaethau, yn ogystal â chanlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae cynllunio dinesig iach yn mabwysiadu dull creu llefydd, gan roi anghenion pobl wrth galon prosesau cynllunio dinesig a gwledig.
- 3.3 Mae gan bolisiau cynllunio a phenderfyniadau cynllunio lleol rôl hollbwysig i'w chwarae i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl wneud dewisiadau iachach o ran eu ffordd o fyw ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd. Mae'r Map Iechyd (ffigwr 1) yn nodi'r rhyngweithiau a'r dylanwadau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant gyda phobl wrth galon y map. Mae'n dangos y cysylltiad agos rhwng yr amgylchedd naturiol ac wedi adeiladu y mae pobl yn byw ynddo, dewisiadau dulliau bywyd wedi mabwysiadu, nifer y gwasanaethau hygyrch sydd ar gael, perthnasau cymdeithasol, swyddi da, a chreu cymunedau ffyniannus, iach a chynaliadwy. Mae'r Map Iechyd yn helpu i ddeall effaith yr amgylchedd naturiol ac wedi adeiladu ar iechyd cymunedau a phobl a'r potensial i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn iechyd trwy'r system gynllunio.

**Ffigur 1 Y Map Iechyd**



Cyf - Barton, H. and Grant, M. (2006) A health map for the local human habitat. The Journal of the Royal Society for the Promotion of Health, 126(6), tud252-253.

- 3.4 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y themâu sy'n cynrychioli'r cysylltiadau strategol rhwng cynllunio gorfodol ac iechyd ac yn rhoi arweiniad ar le y gall cynllunio hwyluso gwelliant mewn iechyd a llesiant. Mae'r rhestr wirio yn Adran 5 yn nodi ystod eang o faterion yn ymwneud ag iechyd y dylai datblygwyr eu hystyried wrth lunio cynigion datblygu. Defnyddir y rhestr wirio i sicrhau bod effaith unrhyw gynnig datblygu penodol ar iechyd a llesiant wedi'i ystyried.

### **3.5 Anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach**

- 3.5.1 Ledled Caerdydd, mae anghydraddoldeb mewn iechyd o ran disgwyliad oes a disgwyliad iach ar enedigaeth yn parhau (gweler atodiad C). I ddynion, mae blwch o un ar ddeg mlynedd mewn disgwyliad oes (9.2 i ferched) yn amlwg rhwng ein cymunedau mwyaf amddifad a lleiaf amddifad. Ar gyfer disgwyliad oes iach ar enedigaeth, y blwch yw 24.4 o flynyddoedd i ddynion a 21.8 o flynyddoedd i ferched. Mae hyn yn golygu bod ein trigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad nid yn unig yn marw'n gynt ond yn dioddef salwch am hirach.
- 3.5.2 Cysylltir anghydraddoldeb iechyd ac amgylcheddol yn anochel ac mae amgylcheddau gwael yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd gwael ac anghydraddoldeb iechyd. Mae anghydraddoldebau amgylcheddol yn effeithio ar iechyd a llesiant, a 'gweithio law yn llaw' â ffactorau eraill i atgyfnerthu anghydraddoldebau iechyd. Mae effaith anghyfartal o feichiau amgylcheddol ar grwpiau sydd dan anfantais, yn enwedig tai gwael, lefel uchel o ddiweithdra, cyfraddau uwch o drosedd, ansawdd awyr gwaeth, diffyg mannau gwyrdd a lleoedd i blant chwarae, a mwy o risgiau i ddiogelwch gan draffig yn ogystal ag effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd.

### **Ystyriaethau y dylai datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac amgylcheddol**

- 3.5.3 Mae'r "Map Iechyd" yn dangos y cysylltiadau rhwng y haenau amgylcheddol amrywiol, yr amgylchedd cymdeithasol a chorfforol â'r unigolyn/poblogaeth. Gellir dechrau mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd trwy gynnig cartrefi sy'n ynni effeithlon; creu swyddi o ansawdd; hybu cerdded a beicio; lleihau allyriadau traffig a chyflymder traffig; sicrhau mynediad at fannau gwyrdd ac agored o ansawdd; gwaredu'r hyn sy'n rhwystro'r gymuned rhag cymryd rhan a rhyngweithio, a lleihau allgâm cymdeithasol.

### **3.6 Dulliau Bywyd Iach**

- 3.6.1 Dylanwadir ar ymddygiadau dull bywyd gan ffactorau iechyd, fel y dangosir ar y "Map Iechyd". Mae'r prif ymddygiadau dull bywyd y gallai penderfyniadau cynllunio ddylanwadu arnynt yn cynnwys gorbwysedd a lefelau gweithgarwch corfforol. Ar gyfer Caerdydd, mae 54% o'r boblogaeth yn ordew neu dros bwysau ac mae 19% o'r boblogaeth yn ordew<sup>14</sup> (ffigurau Cymru gyfan yw 59% a 23% yn y drefn honno) ac mae 23% o'r boblogaeth yn actif am lai na 30 munud yr wythnos tra bod 62% yn adrodd eu bod yn actif am fwy a 150 munud yr wythnos<sup>15</sup> (ffigurau Cymru gyfan yw 30% a 58% yn y drefn honno).

<sup>14</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy>

<sup>15</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy>

## **Ystyriaethau y dylai datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu i helpu i hybu dulliau bywyd iach**

- **Dulliau bywyd actif**

3.6.2 Mae tystiolaeth yn glir bod bod yn gorfforol actif o fantais i iechyd unigolion a'r boblogaeth gan ei bod yn lleihau risgiau o orbwysedd a chyflyrau cronig. Gall yr amgylchedd wedi adeiladu gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i fod yn actif trwy sicrhau rhyng-gysylltu mewn a rhwng datblygiadau, gan roi blaenoriaeth i'r cerddwyr yn lle'r trafndiaeth foduraidd, blaenoriaethu strwythurau a threfnau teithio llesol, a hybu mynediad at gyfleusterau cymunedol a manwerthu trwy gerdded neu feicio.

3.6.3 I wella iechyd y boblogaeth, hybu cynaliadwyedd a gwella diogelwch cymunedol, mae canllawiau polisi'n argymhell blaenoriaethu cerdded a beicio (gan gynnwys darparu beiciau hygyrch), lleihau cyflymder traffig ac annog chwarae awyr agored i blant.

- **Mynediad at le agored**

3.6.4 Mae astudiaethau niferus yn tynnu sylw at fanteision uniongyrchol manau gwyrdd agored a gynhelir yn dda i iechyd a llesiant amgylcheddol, corfforol a meddyliol. Mae manau gwyrdd wedi'u cysylltu â gostyngiad mewn cwynion iechyd, pwysau gwaed a cholesterol, iechyd meddwl gwell a lefelau straen llai, iechyd cyffredinol gwell cydnabyddedig a'r gallu i wynebu problemau. Mae tystiolaeth gref bod manau gwyrdd yn gwella iechyd meddwl yn effeithiol.

3.6.5 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (Polisi C5) yn nodi y dylai datblygiad newydd gynnwys o leiaf 2.43 hectar (6 erw) o fannau gwyrdd gweithredol fesul 1,000 o bobl ac argymhellir pellterau at ddarpariaeth leol yn y Nodyn Canllaw Technegol Man Agored sy'n ffurfio rhan o'r CCA Seilwaith Gwyrdd.

- **Amgylchedd bwyd**

3.6.6 Gwyddys bod mynediad at amgylchedd bwyd sy'n hybu bwyta iach yn gwella iechyd, cefnogi cynnal pwysau iach a lleihau risgiau o ddatblygu cyflyrau cronig hirdymor. Gall yr amgylchedd wedi adeiladu gynig mynediad at leoedd tyfu bwyd mewn cymunedau megis gerddi, manau tyfu bwyd wedi dyrannu yn agos at adeiladau a rhandiroedd cymunedol<sup>16</sup>. Yn ogystal, gwyddys bod darparu unedau manwerthu sy'n gwerthu ffrwythau a llysiau a chyfyngu ar leoli siopau tecawê bwyd twym mewn cymunedau yn dylanwadu ar iechyd y cymunedau<sup>17</sup>.

### **3.7 Llygredd Aer, sŵn a golau**

3.7.1 Mae llygredd aer, sŵn a golau yn effeithio ar iechyd a llesiant, gan gynyddu baich clefydau megis strôc, clefyd y galon, canser yr ysgyfaint, a chlefydau anadlu cronig ac aciwt, gan gynnwys asthma. Heb eithriad mae effaith anghyfartal ar grwpiau difantais. Nodir pwysigrwydd angen ystyried y mater hwn yn y Canllaw NICE (Rhagoriaeth Iechyd a Gofal Cenedlaethol) 'Llygredd Aer: ansawdd awyr yn yr awyr agored ac iechyd' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mewn ymateb i'r mater hwn, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Strategaeth Aer Glân a fydd yn nodi mesurau i wella ansawdd aer yn y ddinas.

---

<sup>16</sup> <http://www.sustainweb.org/publications/?id=295>

<sup>17</sup> <https://www.tcpa.org.uk/healthyplanning> -



- 3.7.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (Polisi EN13) yn nodi 'na chaniateir datblygiad lle y byddai'n achosi neu'n arwain at niwed i iechyd, amwynder lleol, cymeriad ac ansawdd y cefn gwlad, neu bwysigrwydd lles cadwraeth natur, tirlun neu dreftadaeth wedi adeiladu oherwydd llygredd aer, sŵn, golau neu bresenoldeb lefelau annerbyniol o halogi tir'.

### **Ystyriaethau y dylai datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu i leihau llygredd aer, sŵn a golau**

- 3.7.3 Mae'r Map Iechyd yn dangos y cysylltiadau rhwng y haenau amgylcheddol amrywiol â'r unigolyn/poblogaeth. Gellir dechrau mynd i'r afael â llygredd aer, sŵn a golau trwy hybu cerdded a beicio; lleihau allyriadau traffig a chyflymder traffig; sicrhau mynediad at fannau gwyrdd ac agored o ansawdd; cefnogi datblygu adeiladau a chymdogaethau ynni effeithlon; lle nad yw lleihad yn bosibl, lleoli datblygiadau i fwrdd o ffynonellau cyfredol neu arfaethedig o sŵn sylweddol. Trwy ymgysylltu â'r Cyngor, mae angen i'r datblygwr amlinell risgiau effeithiau sylweddol llygredd aer, sŵn a golau a halogi tir, yn ogystal â ble maen nhw a phwy y maent yn effeithio arnynt.

## **3.8 Mynediad at wasanaethau**

- 3.8.1 Mae gwasanaethau gofal iechyd sydd ar gael mewn cyfleusterau lleol o ansawdd a mynediad atynt yn hybu iechyd a lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd, yn ogystal â bod yn hollbwysig ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol<sup>18</sup>. Mae hefyd yn bwysig bod gwasanaethau eraill megis siopau ac ysgolion yn hawdd eu cyrraedd a'u bod ar gael i drigolion y dyfodol. Cafwyd y gall ffactorau daearyddol (diffyg cysylltedd, er enghraifft) rhwystro'r defnydd o wasanaethau gan grwpiau sy'n cael trafferth paratoi adnoddau y mae eu hangen i gael mynediad at wasanaethau pell.

### **Ystyriaethau y dylai datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu i helpu i hybu mynediad at wasanaethau**

- 3.8.2 Mae Byrddau Iechyd yn ddefnyddwyr mawr o'r amgylchedd wedi adeiladu gyda chyfleusterau wedi'u lleoli'n ganolog ac yn lleol i ddarparu gwasanaethau a swyddfeydd ac mae eu lleoliad a'u penderfyniadau dylunio yn effeithio ar iechyd cymaint â gwasanaethau eraill (er enghraifft, addysg a thrafnidiaeth), fel y nodir ar y Map Iechyd. I hybu iechyd a gwella mynediad ar gyfer y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf, awgrymwyd bod
- Modd cyrraedd yr holl gyfleusterau iechyd cymunedol/sylfaenol lleol a chyfleusterau gofal iechyd mwy trwy gerdded a'u bod yn agos at ddulliau teithio cynaliadwy rheolaidd a bod y gwasanaeth yn gweithredu cynllun teithio sy'n hybu trafndiaeth gynaliadwy.
  - Gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol/cymunedol yn cael eu cyd-leoli mewn cyfleusterau a rennir gyda sefydliadau awdurdodau lleol a'r trydydd sector<sup>19</sup>.
- 3.8.3 I wneud hyn, bydd angen trawsnewid gwasanaethau iechyd i fodloni angen y boblogaeth a gweithio gyda phartneriaid yr Awdurdod Lleol a'r trydydd sector i ddatblygu rhwydwaith o gyfleusterau aml-swyddogaethol a rennir yn y gymuned.
- 3.8.4 Yn ogystal â mynediad at gyfleusterau gofal iechyd dylai datblygwyr ystyried mynediad at ystod eang o wasanaethau eraill megis siopau manwerthu, swyddfeydd post, llyfrgelloedd, ysgolion, trafndiaeth gyhoeddus, celfyddydau a hamdden a chanolfannau cymunedol.

<sup>18</sup> Planning Policy Wales November 2016 Edition 9 <http://gov.wales/docs/desh/publications/161117planning-policy-wales-edition-9-cy.pdf>

<sup>19</sup> Barton H, Grant M and Guise R (2010) Shaping Neighbourhoods for Health and Global Sustainability. 2<sup>nd</sup> Edition. Routledge Oxon

### 3.9 Dylunio ar gyfer diogelwch a llesiant

- 3.9.1 Gall lleoedd wedi'u dylunio'n dda helpu i leihau trosedd a'r cyfle i'w gyflawni a chynyddu hyder a diogelwch y cyhoedd. Gellir hefyd mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol trwy lunio atebion sy'n integreiddio manau cyhoeddus a gynhelir yn dda, cyfleusterau cymunedol, siopau a pharciau yn y datblygiad amgylchynol.

#### **Ystyriaethau y dylai datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu dylunio ar gyfer diogelwch a llesiant**

- **Diogelwch ar y Ffyrdd**

- 3.9.2 Anafiadau ffyrdd yw nawfed brif achos marwolaeth yn fyd-eang ac nhw yw achos mwyaf marwolaeth pobl 15 i 25 oed<sup>20</sup>. Plant yw defnyddwyr y ffordd sydd fwyaf tebygol o gael eu lladd mewn damweiniau ffyrdd ac mae eu siawnsiau o oroesi'n lleihau gyda chyflymder cerbydau sy'n cynyddu. Ffyrdd gyda chyfyngiadau cyflymder o 20 mya yw'r rhai diogelach ac sydd â risg is, gyda dim ond 5% o blant sy'n debygol o farw o ganlyniad i wrthdrawiad gyda cherbyd sy'n teithio ar y cyflymder hwn. Mae mentrau sy'n creu amodau gwell ar gyfer cerdded a beicio a lleihau cyfyngiadau cyflymder i 20mya yn ddulliau effeithiol o sicrhau diogelwch ar y ffyrdd. Gellir hefyd ddefnyddio mesurau arafu traffig a dynodi strydoedd yn barthau cartrefi lle y rhoddir blaenoriaeth i gerddwyr i greu amgylcheddau ffordd diogelach.

- **Adeiladau Iach**

- 3.9.3 Gall adeiladau yr ydym yn byw a gweithio ynddynt gael effaith ddifrifol ar iechyd. Mae materion i'w hystyried yn cynnwys brwydro syndrom adeilad sâl, lleihau cyfansoddion organig anweddol mewn deunyddiau, golau naturiol, awyru da, lleoli grisiau mewn adeiladu fel y maent yn fwy amlwg na liffitiau a chartrefi wedi'u hinswleiddio'n dda, yn enwedig i'r henoed. Mae cartrefi wedi'u hinswleiddio'n dda yn bwysig i gadw'n iach ac yn dwym yn y misoedd oerach a hefyd i gadw'n oer ac yn iach ym misoedd yr haf heb angen defnyddio aerdymeru, gan y disgwylir mwy o gyfnodau poeth o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Dylai dyluniad adeiladau a phontydd hefyd ystyried yr angen i leihau hunanladdiad trwy gyfyngu ar fynediad at rannau o'r adeiladau/pontydd sy'n cynnig dull o'i gyflawni wrth ddylunio strwythurau o'r fath a'r posibilrwydd o lithriadau a chwympiadau.

- 3.9.4 Mae ansawdd tai yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynnal a hybu iechyd a llesiant. Wrth gyflwyno cynigion i newid tai cyfredol mae'n bwysig bod y dyluniad yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â thai o ansawdd gwael a chwblheir datblygiadau newydd i safon uchel o ddyluniad tai.

### 3.10 Camau bywyd, cydraddoldeb a chynhwysiant

- 3.10.1 Mae ffactorau sy'n hybu iechyd da, yn enwedig iechyd meddwl da, yn cynnwys cyfranogiad cymunedol, ecwiti cymdeithasol a rhwydweithiau cymorth teulu a ffrindiau. Mae teimladau cadarnhaol am fywyd, hunan-barch, rheolaeth a theimlad o ddiben yn dylanwadu ar lefelau o lesiant meddyliol sydd yn ei dro'n effeithio ar salwch corfforol a meddyliol.

---

<sup>20</sup> <http://www.who.int/mediacentre/factsheets/fs310/en/>

## **Ystyriaethau y dylai datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu i helpu i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol**

3.10.2 Mae gan gynllunio rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o hybu cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol. Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden ac i gael lleoedd lle y gallant ryngweithio'n gymdeithasol gyda'u cyfoedion ac wrth iddynt heneiddio, rhaid i gyfleoedd am swyddi a hyfforddiant fod ar gael ac yn hygyrch. Yn yr un modd, dylai pob unigolyn mewn unrhyw gymuned, ni waeth ei oedran, rhyw, gallu corfforol neu feddyliol gael mynediad at gyfleusterau cymunedol a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt ar bob cam o'i fywyd. Wrth i ni heneiddio, bydd ein gofynion dyddiol yn newid ac mae'n hanfodol bod cymunedau'n cael eu datblygu i ymgorffori gwasanaethau a chyfleoedd y gallai fod eu hangen ar bobl hŷn ac y gallai pobl hŷn eu heisiau.

3.10.3 Yn hyn o beth mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio'n rhan o Fenter Dinasoedd sy'n Deall Plant UNICEF, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hymwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad ac ym mhartneriaethau, a bod polisiau ac arfer yn canolbwyntio ar y plentyn.

3.10.4 Mae Caerdydd yn gymdeithas aml-ddiwylliannol ac er mwyn sicrhau ei bod yn gymdeithas deg a chyfartal, dylid cynnwys cynhwysiant cymdeithasol yn y gwaith o ailddatblygu ein hadeiladu a'n gofodau. Mae angen i'n manau a lleoedd cymunedol fod yn newidiol, hyblyg, croesawgar a derbyniol i bawb o bob oedran ac o bob cefndir. Dylai pob fod wrth galon y system gynllunio gan fod cynllunio yn wasanaeth i wella ansawdd bywydau bob dydd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn mae'n bwysig bod cymunedau a allai gael eu heffeithio gan ddatblygiad yn cael rhan weithredol ar gam cynnar yn y broses.

### **• Rôl cynllunio yn y gwaith o greu amgylcheddau sy'n ddeall dementia**

3.10.5 Mae 850,000 o bobl sy'n byw gyda demensia yn y DU ar hyn o bryd. Disgwylir i hyn gynyddu i 1 filiwn erbyn 2021 ac i 2 filiwn erbyn 2051. Mae tystiolaeth wedi dangos bod tai o ansawdd ac amgylcheddau lleol sy'n galluogi wedi'u cynllunio'n dda yn gallu cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd rhywun sy'n byw gyda demensia, gan eu helpu i fyw'n dda am hirach ac wrth gwrs, mae gan gynllunio tref rôl allweddol i'w chwarae os bydd polisiau yn llwyddo. Os ydych yn cael ardal yn gywir i bobl sydd â demensia, rydych yn ei chael yn gywir i bobl hŷn, i bobl anabl ifanc, i deuluoedd gyda phlant bach, ac i bawb yn y pen draw.

3.10.6 Mae nodyn arfer da wedi'i greu gan y RTPI<sup>21</sup> sy'n rhoi cyngor i ddatblygwyr ar sut y gall cynllunio da greu amgylcheddau gwell i bobl sy'n byw gyda demensia. Mae'n crynhoi cyngor arbenigol, amlinellu cynllunio allweddol a pholisi iechyd ac yn tynnu sylw at astudiaethau achos arfer da.

### **• Rôl cynllunio yn y gwaith o greu amgylcheddau synhwyrol**

3.10.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau a datblygwyr cynllunio ystyried hygyrchedd i bawb, gan gynnwys anghenion pobl sydd â namau synhwyrol ar gam gynnar yn y broses ddylunio. Nodyn Cyngor Technegol 12: mae dylunio'n nodi prif amcanion dylunio da ac yn nodi y dylai datblygwyr fabwysiadu egwyddorion dylunio cynhwysol sy'n creu darpariaeth ddigonol i bawb gan gynnwys y rhai hynny sydd â namau synhwyrol. Mae

---

<sup>21</sup> Demensia a Chynllunio Trefi – Creu Amgylcheddau Gwell ar gyfer Pobl sy'n Byw gyda Demensia – Cyngor Ymarfer RTPI Ionawr 2017

hefyd yn nodi y dylid yn ystyried yn benodol faint y mae cerddwyr yn symud a'r hawster cymharol o wneud felly.

## 4. Lleoliad Cyfleusterau Gofal Iechyd

- 4.1 Fel y nodir yn adran 3, mae mynediad at ac argaeledd cyfleusterau gofal iechyd yn hybu iechyd a llesiant. Mae'r adran hon yn rhoi mwy o arweiniad manwl ar leoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd newydd gan gynnwys meddygfeydd doctoriaid a deintyddion. Mae Polisi C1 Cyfleusterau Cymunedol y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn disgrifio lle y dylid lleoliad cyfleusterau o'r fath.

### **C1: CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL**

**Anogir cynigion ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd a gwell, cyfleusterau iechyd a chrefyddol, yn amodol ar fodloni'r meini prawf canlynol:**

- i. Bydd yn hawdd i'r gymuned leol gyrraedd y cyfleuster sydd â'r bwriad o'i gwasanaethu trwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio;**
  - ii. Ni fyddai'r cyfleuster gwneud niwed yn ddi-raid i amwynderau meddianwyr preswyl cymdogol a chyfagos;**
  - iii. Ni fyddai'r cyfleuster yn amharu ar gymeriad a golwg eiddo neu'r ardal;**
  - iv. Ni fydd y cyfleuster yn arwain at barcio annerbyniol neu broblemau traffig;**
  - v. Dylunnir y cyfleuster gyda'r hyblygrwydd mwyaf posibl i allu cynnig defnyddiau cymunedol ychwanegol heb gyfaddawdu ei brif ddefnydd a fwriedir.**
- 4.2 Wrth ddatblygu mae'n bwysig ystyried digonolrwydd cyfleusterau gofal iechyd gan ei bod yn gallu rhoi pwysau ar gyfleusterau cyfredol, er anfantais i'r gymuned leol. O ganlyniad, mae angen sicrhau y darperir cyfleusterau gofal iechyd digonol i ateb galwon cymunedau lleol yn y dyfodol.
- 4.3 Dylai'r gwaith o ddarparu cyfleusterau gofal iechyd newydd gael ei gysylltu'n agos â datblygiad newydd a'i integreiddio ynddo. Mae darparu ystod o gyfleusterau cymunedol sy'n hygyrch i gymaint o bobl â phosibl yn hollbwysig o ran sicrhau cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn werthfawr nid yn unig o ran yr amwynder y maent yn ei gynnig, ond maent hefyd yn bwysig o ran creu swyddi a denu pobl i fyw mewn ardal. Er y cydnabyddir bod llawer o anghenion cystadleuol ar gyfer datblygu a defnyddio tir, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfleusterau digonol i wasanaethu trigolion yn rhan o ddyraniadau tai strategol newydd. Cyflawnir hyn trwy rwymedigaethau cynllunio neu'r ardoll seilwaith cymunedol fel sy'n briodol. Nodir mwy o wybodaeth am hyn yn Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol y Rhwymedigaethau Cynllunio.
- 4.4 Ffeirir cyfleusterau gofal iechyd mewn Canolfannau Ardal neu Leol lle bo'n briodol, ond, lle nad oes modd cynnig defnyddiau o'r fath yn fodlon mewn canolfannau, ystyrir yn ffafriol gynigion ar ymyl canolfannau neu mewn ardaloedd preswyl (i gynnwys newid neu ailddatblygu safleoedd preswyl cyfredol) ar yr amod yr eir i'r afael ag amwynder preswyl, dylunio dinesig a thrafnidiaeth yn briodol.
- 4.5 Hefyd, os yw'r ardal breswyl mewn Ardal Gadwraeth, ni ddylai'r datblygiad arfaethedig amharu ar ei chymeriad, ac ni ddylai gael effaith negyddol ar yr asedau treftadaeth wedi adeiladu.

## 5. Rhestr Wirio Cynllunio Dinesig Iach

- 5.1 O ystyried y cysylltiadau rhwng iechyd a llesiant a chynllunio a nodir ym mhennod 3, mae'n bwysig bod datblygwyr yn ystyried ystod eang o ffactorau yn ymwneud ag iechyd a llesiant wrth baratoi cynigion. Mae'n bwysig bod datblygydd yn ymgysylltu a'r awdurdod cynllunio lleol a rhandeiliaid eraill, megis y Bwrdd Iechyd Lleol cyn gynted â phosibl yn y broses o lunio cynigion datblygu.
- 5.2 I gynorthwyo gyda'r broses hon ac i sicrhau yr ystyrir yr holl ystod o faterion yn ymwneud ag iechyd a llesiant, dylid ystyried y rhestr ganlynol gan ddatblygwyr wrth baratoi cynigion datblygu mawr ar gyfer cynlluniau tai, manwerthu, cyflogaeth a thrafnidiaeth. Mae'r rhestr o faterion wedi'i datblygu gan ddefnyddio Rhestr Wirio Cynllunio Dinesig Iach wedi datblygu gan Uned Datblygu Dinesig Iach GIG Llundain ac mae ar sail methodoleg Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI). Diffinnir datblygiadau mawr mewn deddfwriaeth gynllunio<sup>22</sup> fel a ganlyn:
- Datblygiadau preswyl o 10 neu fwy o aneddiadau neu 0.5 hectar neu fwy;
  - Darparu adeilad neu adeiladau lle bydd y gofod llawr a gaiff ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
  - Datblygiad ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy
- 5.3 Cydnabyddir bod materion iechyd a llesiant yn drawsbynciol ac yn gorgyffwrdd ag ystod o faterion gan gynnwys tai, trafndiaeth, llygredd, manau agored, risg llifogydd a bioamrywiaeth. O ystyried hyn, mae'r materion isod sy'n ymwneud ag iechyd yn debygol o gael eu cyflwyno mewn ystod o ddogfennaeth ategol wedi cyflwyno gyda'r cais mewn dogfennau megis y Datganiad Amgylcheddol, yr Asesiad Trafnidiaeth, y Cynllun Teithio, ac ati.
- 5.4 Ni fydd yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant yn berthnasol i'r holl fathau o ddatblygiadau ac mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am ddull cytbwys o benderfynu ar gynigion datblygu lle bod materion yn ymwneud ag iechyd yn un o lawer o ystyriaethau perthnasol eraill. Bydd angen i ddatblygwyr nodi'r hyn sy'n berthnasol a sicrhau ei bod wedi'i chynnwys yn y ddogfennaeth ategol. Isod ceir Polisiâu CDLI perthnasol ar bob un o'r materion ynghyd â dolen i'r CDLI:
- Darparu cartrefi fforddiadwy i deuluoedd (Polisiâu KP13 a H3)
  - Cysylltedd â rhwydweithiau Beicio a Cherdded (Polisi KP4, KP5, KP8, KP14 a T1)
  - Hybu Cerdded a Beicio (Polisi KP4, KP8, KP14 a T1)
  - Hybu diogelwch Priffyrdd (Polisi T1)
  - Hybu trafndiaeth gyhoeddus (KP4, KP5, KP6, KP8, T2, T3, T4 & T5)
  - Lleihau'r Defnydd o Geir (Polisi KP4, KP8 a T1)
  - Darparu Gwasanaethau Iechyd (Polisiâu KP7, KP14 a C6)
  - Darparu Gwasanaethau Addysg (Polisi C7)
  - Darparu cyflogaeth (Polisi KP1 a KP9)
  - Hygyrchedd at Seilwaith Cymdeithasol (Polisi KP4, KP13 & C1)
  - Hygyrchedd at siopau bwyd lleol (Polisi R4 & R5)
  - Darparu Tai Hygyrch ar gyfer pobl hŷn/anabl (Polisi KP5)
  - Darparu Tir Cyhoeddus (Polisi KP5)
  - Lleihau Sŵn (Polisi EN13)
  - Lleihau Llygredd Aer (Polisi EN13)

<sup>22</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/801/article/2/made>

## CCA Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell

- Amddiffyn a Darparu Mannau Agored (Polisiau KP5, C4 a C5)
- Darparu Mannau Chwarae (Polisi C5)
- Tyfu Bwyd Lleol (Polisi KP6, KP14 a KP16)
- Cyfrannu at Fioamrywiaeth (Polisiau KP16, EN3 -8)
- Lleihau Risg Llifogydd (Polisi EN14)
- Newid yn yr Hinsawdd a Gordwymo (Polisi KP5 a KP15)

5.5 Gellir gweld y CDLI mabwysiedig trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>



## **Atodiad A – Polisiâu CDLI Perthnasol**

### **PRIF BOLISIÂU**

KP1: LEFEL Y TWF  
KP4: DULL UWCH-GYNLLUNIO  
KP5: SAFON DDA A CHYNLLUN CYNALIADWY  
KP6: SEILWAITH NEWYDD  
KP7: RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUIO  
KP8: TRAFNIDIAETH GYNALIADWY  
KP9: YMATEB I ANGHENION ECONOMAIDD A BROFWYD  
KP13: YMATEB I ANGHENION CYMDEITHASOL AMLWG  
KP14: BYW’N IACH  
KP15: NEWID YN YR HINSAWDD  
KP16: SEILWAITH GWYRDD

### **POLISIÂU MANWL**

#### **TAI**

H3: TAI FFORDDIADWY

#### **YR AMGYLCHEDD**

##### **Amddiffyn Cefn Gwlad**

EN1: AMDDIFFYN CEFN GWLAD

##### **Yr Amgylchedd Naturiol**

EN3: AMDDIFFYN TIRLUN  
EN4: CORIDORAU AFONYDD  
EN5: SAFLEOEDD DYNODEDIG  
EN6: RHWYDWEITHIAU ECOLEGOL A NODWEDDION  
PWYSIGRWYDD BIOAMRYWIAETH  
EN7: CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU BLAENORIAETH  
EN8: COED, COEDLANNAU A GWYRCHOEDD

##### **Cyfoeth Naturiol**

EN10: DYLUNIAD SY’N YSTYRIOL DDŴR  
EN11: AMDDIFFYN ADNODDAU DŴR

##### **Ynni Adnewyddadwy**

EN12: YNNI ADNEWYDDADAWY A CHARBON ISEL  
TECHNOLEGAU

##### **Llygredd**

EN13: LLYGREDD AER, SŴN, GOLAU A THIR  
HALOGI

## **Risg Llifogydd**

EN14: RISG LLIFOGYDD

### **TRAFNIDIAETH**

T1: CERDDED A BEICIO

T2: CORIDORAU BYSUS A CHLUDIANT CYFLYM STRATEGOL

T3: CYDNEWIDFEYDD TRAFNIDIAETH

T4: HYB TRAFNIDIAETH CANOLOG

T7: SEILWAITH TRAFNIDIAETH STRATEGOL

T8: LLWYBRAU HAMDDEN STRATEGOL

T9: RHWYDWAITH 'METRO' DINAS-RANBARTH CAERDYDD

### **MANWERTHU**

R1: HIERACHIAETH MANWERTHU

R2: DATBLYGU YN YR ARDAL SIOPA GANOLOG

R4: CANOLFANNAU ARDAL

R5: CANOLFANNAU LLEOL

R8: DEFNYDDIAU BWYD A DIOD

### **CYMUNED**

C1: CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

C2: AMDDIFFYN CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL CYFREDOL

C3: DIOGELWCH CYMUNEDOL/CREU AMGYLCHEDDAU DIOGEL  
AMGYLCHEDDAU

C4: AMDDIFFYN MANNAU AGORED

C5: DARPARU AR GYFER MANNAU AGORED,  
HAMDDEN, CHWARAE PLANT A CHWARAEON YN YR AWYR AGORED

C6: IECHYD

C7: CYNLLUNIO AR GYFER YSGOLION

### **MWYNAU**

M4: PARTHAU CLUSTOGFA MWYNAU

M5: ADFER AC AR EI ÔL – DEFNYDD O WAITH  
MWYNAU

M8: ARDALOEDD LLE NA FYDD GWAITH GLO'N  
DDERBYNIOL

### **GWASTRAFF**

W1: SAFLEOEDD AR GYFER CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF

W2: DARPARU CYFLEUSTERAU RHEOLI GWASTRAFF MEWN DATBLYGIADAU

Gellir gweld y CDLI mabwysiedig trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswlydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx>


## **Atodiad B – Cysylltiadau â CCAau eraill**

1. Rhwymedigaethau Cynllunio
2. Seilwaith Gwyrdd
3. Llifogydd
4. Canllaw Dylunio Preswyl
5. Canllaw Dylunio Deiliaid Tŷ
6. Defnyddiau Bwyd, Diod a Hamdden
7. Sŵn
8. Aseidiadau Ynni Adnewyddadwy
9. Canllaw a Safonau Dylunio ar gyfer Fflatiau, addasiadau Fflat a llety myfyrwyr
10. Mynediad, Parcio a Chylchrediad

**Atodiad C** – Darnau o Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru – Mesur Tueddiadau Anghydraddoldeb 2016 mewn Marwolaeth a Disgwyliad Oes yn BIP Caerdydd a'r Fro <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/page/87234>







**Cymhariaeth o ddisgwyliad oes a disgwyliad oes iach ar enedigaeth, gyda Mynegai Anghydraddoldeb Slope (SII), Caerdydd, 2005-09 a 2010-14**


Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM & MYE (SYG), WHS & MALIC 2014 (LIC)



### Pumedau awdurdod lleol o amddifadedd, Caerdydd

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

-  Mwyaf amddifad (43)
-  Nesaf mwyaf amddifad (43)
-  Canol (42)
-  Nesaf lleiaf amddifad (43)
-  Lleiaf amddifad (43)
-  Ffin yr awdurdod lleol



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio MALIC 2014 (LIC)  
©Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2016, Arolwg Ordans 100044810

### Disgwyliad oes adeg geni, dynion, BIP Caerdydd a'r Fro, 2010-14

Ardal Gynnyrch Haen Ganol

81.8 to 84.6 (12)


79.0 to < 81.8 (15)

76.3 to < 79.0 (20)

73.5 to < 76.3 (13)

70.8 to < 73.5 (3)

Ffin yr awdurdod lleol



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM & MYE (SYG)


© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2016, Arolwg Ordians 100044810

### Disgwyliad oes adeg geni, menywod, BIP Caerdydd a'r Fro, 2010-14

Ardal Gynnyrch Haen Ganol

- 86.7 to 89.8 (5)
- 83.7 to < 86.7 (22)
- 80.7 to < 83.7 (22)
- 77.7 to < 80.7 (11)
- 74.6 to < 77.7 (3)

Ffin yr awdurdod lleol



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM & MYE (SYG)  
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2016, Arolwg Ordians 100044810



### Canran o ddynton yn asesu eu statws iechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn, BIP Caerdydd a'r Fro, 2011

ACEHI, canran oed safonedig Ewropeaidd\*

83.8 to 90.5 (73)


77.1 to < 83.8 (87)

70.4 to < 77.1 (81)

63.7 to < 70.4 (49)

57.0 to < 63.7 (3)

Ffin yr awdurdod lleol



\*Gan ddefnyddio pwysoli cyfanredol Poblogaeth Safonol Ewropeaidd 2013

Cynhyrwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data tabl LC3302EW Cyfrifiad 2011 (SYG)

© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2016, Arolwg Ordnans 100044810

**Canran o fenywod yn asesu eu statws iechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn, BIP Caerdydd a'r Fro, 2011**

ACEHI, canran oed safonedig Ewropeaidd\*

83.3 to 89.5 (65)


77.0 to < 83.3 (91)

70.8 to < 77.0 (67)

64.5 to < 70.8 (54)

58.3 to < 64.5 (16)

Ffin yr awdurdod lleol



\*Gan ddefnyddio pwysoli cyfanredol Poblogaeth Safonol Ewropeaidd 2013

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data tabl LC3302EW Cyfrifiad 2011 (SYG)

© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2016, Arolwg Ordians 100044810

## Atodiad D – Rhestr o Gyfeiriadau

1. CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, Cyngor Sir Caerdydd, Ionawr 2017
2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
3. Llesiant yng Nghymru: Cynllunio ar gyfer yfory gwell, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2017
4. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5. Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
6. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
7. Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru
8. Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, Cyngor Sir Caerdydd, Ionawr 2016
9. Dogfen Uchelgais Prifddinas, Cyngor Sir Caerdydd, 2017
10. Strategaeth Siapio Ein Llesiant yn y Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro (2015 - 2025), Bwrdd Iechyd y Brifysgol Caerdydd a'r Fro, Medi 2015
11. Aseiad Llesiant, Bwrdd Partneriaeth Caerdydd, Ionawr 2017
12. Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016
13. Fframwaith Cynllunio GIG Cymru. Datblygu system Gynllunio Effeithiol yn GIG Cymru 2013
14. Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Cymru hyd at fis Mawrth 2018
15. Canllaw Buddsoddi Seilwaith GIG Cymru 2015
16. Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell yng Nghymru
17. Aseiad o'r Effaith ar Iechyd – Canllaw Ymarferol
18. Cynllunio Gorfodol ar gyfer Iechyd: Adnodd tystiolaeth ar gyfer cynllunio a dylunio lleoedd iach
19. Cynllunio Amgylcheddau Pwysau Iach
20. Barton, H. and Grant, M. (2006) A health map for the local human habitat. The Journal of the Royal Society for the Promotion of Health, 126(6), tud252-253.
21. Cynllunio Dinasoedd Cynaliadwy ar gyfer Tyfu Bwyd Cymunedol, Sustain, Ebrill 2014
22. Barton H, Grant M and Guise R (2010) Shaping Neighbourhoods for Health and Global Sustainability. 2il Argraffiad. Routledge Oxon
23. Demensia a Chynllunio Trefi – Creu Amgylcheddau Gwell ar gyfer Pobl sy'n Byw gyda Demensia – Cyngor Ymarfer RTPI Ionawr 2017

## **Atodiad E – Ymgynghoriad ar y CAA Drafft**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng dydd Iau 22 Mehefin 2017 a dydd Iau 3 Awst 2017. Rhoddwyd hysbysiad gwasg mewn newydd papur lleol ddydd Mercher 21 Mehefin 2017. Rhoddwyd copïau o'r canllaw drafft ym mhob llyfrgell yng Nghaerdydd ac yn Nerbynfa Neuadd y Sir. Cafodd y canllawiau drafft hefyd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Anfonwyd llythyrau'n hysbysbu am yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft i'r holl Gynghorwyr, Llywodraeth Cymru, Cynghorau Cymuned yng Nghaerdydd ac at unrhyw bobl â diddordeb a gwyddys bod gan y sefydliadau canlynol fuddiant cyffredinol mewn cynllunio yng Nghaerdydd neu fuddiant posibl yn y canllawiau hyn.

\*\*\* yn dynodi ymgynghoreion sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal ag aelod o'r cyhoedd.

ACE - Action in Caerau and Ely	Caerdydd yn Erbyn y Llosgydd
Alder King	Bws Caerdydd
Alternatives for Transport	Defnyddwyr Bws Caerdydd
AMEC Environment & Infrastructure UK Limited	Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
Cyngor Celfyddydau Cymru	Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd
Arup	Ymgyrch Beicio Caerdydd
Asbri Planning Ltd	Greenpeace Caerdydd
Associated British Ports	Hofrenfa Caerdydd
Association of Inland Navigation Authorities	Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf.
Atkins	Plaid Cymdeithasol a Rhyddfrydol Caerdydd ***
Austin-Smith: Lord	Fforwm Mynediad Lleol Caerdydd
Barratt Homes	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Barton Willmore	Naturiaethwyr Caerdydd
Bellway Homes	Rhyddhad Cerddwyr Caerdydd
Biffa	Pontio Caerdydd
Bilfinger GVA	Prifysgol Caerdydd
Black Environment Network	Cymunedau'n Gyntaf Gorllewin Caerdydd
Blake Morgan LLP	Gwasanaethau Cynllunio Carolyn Jones
BNP Paribas Real Estate	Cynllunio CDN
Bovis Homes	Celsa Manufacturing (UK) LTD
Boyer Planning	Cemex Uk Operations Ltd
Cyngor Dinas Bryste	CFW Architects
BT Group plc	CGMS Consulting
Busnes yn y Gymuned Cymru	Sefydliad Tai Siartedig Cymru
C2J	Chichester Nunns Partnership
Cymdeithas Tai Cadwyn	Chris Morgan Planning Consultant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Chwarae Teg
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Awdurdod Hedfan Sifil
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro	Yr Awdurdod Glo
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Coleg Glan Hafren
Grŵp Mynediad Caerdydd	Cymunedau'n Gyntaf Adamsdown
	Tai Cymunedol Cymru

Gwasanaeth Cynghorol Tir Cymunedol  
Cymru  
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain  
Cydffederasiwn Trafnidiaeth Teithwyr  
Connections Design  
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad  
CSJ Planning Consultants  
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
Danescourt Community Association  
David Lock Associates  
Davies Sutton Architects  
DavisMeade Agricultural  
Derek Prosser Associates  
Design Circle RSAW South  
Comisiwn Dylunio Cymru  
Partneriaeth Cynllunio Datblygu  
Development, Land & Planning Consultants  
Ltd  
Celfyddydau Anabledd Cymru  
Anabledd Cymru  
DLP Consultants  
DLP Planning Ltd  
DPP Cardiff  
DTB Design  
DTZ  
Dwr Cymru Welsh Water  
Edenstone Homes  
Uned Cymorth Asesiad o'r Effaith ar Iechyd  
Cymru (WHISAU)/Gwasanaeth Iechyd y  
Cyhoedd Amgylcheddol Cymru \*\*\*  
Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb  
Project Cymorth Busnes Ethnig  
Ffederasiwn o Fusnesau Bach  
First City Limited  
FirstGroup plc  
Firstplan  
Coedwigaeth yng Nghymru/Cyfoeth  
Naturiol Cymru  
Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau  
Cyfeillion Coetir Cymuned Nantfawr  
Fulfords Land & Planning  
G L Hearn  
G Powys Jones  
Cymdeithas Hanes Gerddi  
Geraint John Planning Ltd  
GL Hearn Planning  
Glamorgan - Gwent Archaeological Trust

Ltd  
Cymdeithas Tai Gwent Glamorgan  
GMA Planning  
Cyngor Cymunedol Graigl  
Cymdeithas Diogelu Graig  
Great Western Trains Company Limited  
Grosvenor Waterside  
GVA  
H O W Commercial Planning Advisors  
Cymdeithas Tai Hafod  
Cyfyngedig/Cymdeithas Gofal Hafod  
Cyfyngedig  
Halcrow  
Hammonds Yates  
Cymdeithas Trigolion y Mynydd Bychan  
Herbert R Thomas LLP  
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi  
Hutchinson 3G UK  
Hyland Edgar Driver  
Hywel Davies  
Rhyng-ffydd Cymru  
Jacobs Babbie  
Jeremy Peter Associates  
JLL  
John Hughes  
John Robinson Planning & Design  
John Wotton Architects  
Jones Lang LaSalle  
JP Morgan Asset Management  
Cadw Cymru'n Daclus  
Kelly Taylor & Associates  
Kingsmead Assets Limited  
Knight Frank  
Landscape Institute Wales  
Level Ltd  
Lichfields  
Linc-Cymru  
Cyngor Cymuned Llys-faenl  
Grŵp Sgwrs Llandaf  
Cymdeithas Llandaf  
Partneriaeth Lovell  
Loyn & Co Architects  
LUC  
Madley Construction  
Mango Planning and Development Limited  
Cyngor Cymunedol Marshfield

Martin Robeson Planning Practice  
McCarthy & Stone (plc)  
Meadgate Homes Ltd  
Mike Pitt  
Mineral Products Association  
Morgan Cole  
Mott MacDonald  
Ffederasiwn Cenedlaethol Adeiladwyr  
Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Neame Sutton  
Network Rail  
Cyngor Dinas Casnewydd  
NFU Cymru  
Grŵp Gogledd-orllewin Caerdydd  
Novell Tullet  
O2 UK  
Meithrinfeydd Oakgrove  
Cyngor Cymunedol Pentref Llaneirwg  
Orange  
Origin3  
Cymdeithas Trigolion Pantmawr  
Peace Mala  
Peacock & Smith  
Pegasus  
Cyngor Cymunedol Pentyrch  
Persimmon Homes  
Peterson Williams  
Cyngor Cymunedol Peterstone  
Phillippa Cole  
Cymorth Cynllunio Cymru  
Planning Potential  
Comisiynydd Heddlu a Throsedd  
Powell Dobson  
Powergen  
Prospero Planning  
Quarry Products Association  
Quinco  
Quod  
Race Equality First  
Cymdeithas Radur a Phentre-poeth  
Cyngor Cymuned Radr a Phentre-poeth  
Ymddiriedolaeth Cymuend a Phartneriaeth  
Radur a Phentre-porth (PACT)  
Fferm Radur  
Clwb Golff Radur

Rapleys  
RCT  
Redrow Homes \*\*\*  
Reeves Retail Planning Consultancy Ltd  
Renplan  
Reservoir Action Group (RAG)  
Cymdeithas Ddinesig Rhiwbeina  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon  
Taf  
RICS Wales  
Rio Architects  
Tîm Cymunedau'r Gyntaf Glan-yr-afon  
Robert Turely Associates  
Roberts Limbrick  
Robertson Francis Partnership

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl  
Ddall  
RPS Group Plc  
RSPB Cymru  
Grŵp Gweithredu Achub Creigiau  
Savills  
Scope Cymru  
Scott Brownrigg  
Sellwood Planning  
Shawn Cullen  
SK Designs  
SLR Consulting  
Siambr Fasnach De Cymru Caerdydd  
Heddlu De Cymru  
Atal Trosedd Heddlu De Cymru  
Cynghorydd Dylunio  
WIN De Cymru  
Cymunedau'n Gyntaf Sblot a Thremorfa  
Chwaraeon Cymru  
SSE Energy Supply Ltd  
Cyngor Cymuned Sain Ffagan  
Stedman Architectural  
Stewart Ross Associates  
Stonewall Cymru  
Stride Treglown Town Planning  
Stuart Coventry Scott Wilson  
Sullivan Land & Planning  
Sustrans Cymru  
Cymdeithas Tai Taff  
Tanner & Tilley

Taylor Wimpey  
Terry Nunns Architects  
Cymdeithas yr 20fed Ganrif  
The Boarding Centre Ltd  
Y Grŵp Dylunio 3  
Y Grŵp Georgaidd  
Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac  
Amlosgfeydd  
The Land Mark Practice  
Y Swyddfa Gynllunio  
Sefydliad Cynllunio Trefi Brenhinol  
The Urbanists  
Y Gymdeithas Fictoraidd  
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a  
Gorllewin Cymru  
Ymddiriedolaeth Theatrau  
T-Mobile (UK) Ltd  
Cyngor Cymuned Tongwynlais  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Turley  
Cymdeithas Tai Cymru Unedig  
Urban City Ltd  
Pencadlys Corfforaethol Ymddiriedolaeth  
GIG Felindre  
Virgin Media  
Vodafone  
Cymdeithas Tai Wales & West  
Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol  
Cymorth i Ferched Cymru  
Watts Morgan  
Gwasanaeth Ambiwylans Cymru  
Ymddiriedolaeth GIG – Rhanbarth y De-  
ddwyrain  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru - Adran Sgiliau'r  
Economi a Thrafnidiaeth  
Comisiynydd yr Iaith Gymraeg  
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru Cyf  
Cyngor Cymuned Gwynllŵg  
White Young Green  
Wimpey Homes  
WS Atkins Planning Consultants  
Canolfan Garddio Wyevale

**Atodiad F – Crynodeb o Sylwadau ac Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

<b>Tudalen/Par a</b>	<b>Sylw</b>	<b>Ymateb</b>
Para 5.3	Byddai'n werth nodi, er bod materion yn ymwneud ag iechyd yn debygol o fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf ddatblygiadau, na fydd pob datblygiad yn gallu bodloni'r meini prawf yn y CCA drafft yn llawn. Mae'n bwysig bod y CCA drafft yn cydnabod yr angen am ddull cytbwys o benderfynu ar gynigion datblygu lle bo materion yn ymwneud ag iechyd yn un o'r llawer o ystyriaethau perthnasol.	Cytunwyd – ychwanegwyd testun i gydnabod y mater hwn
Para 2.9 a 2.10	Mae angen bod mwy o eglurder am bryd y bydd angen Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhan o gais cynllunio. Fel y mae hi ar hyn o bryd, mae'r CCA drafft yn awgrymu bod paratoi AEI yn arfer da ar gyfer datblygiad priodol. Mae Redrow yn ystyried y dylai eglurder mwy ar drothwyon fod yn destun ymgynghoriad a byddai'n awgrymu bod angen i'r CCA drafft gydnabod nad oes methodoleg benodol ar gyfer paratoi AEI a bod y fethodoleg a hybir gan Uned Gymorth Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cymru yn un dull ymhlith eraill o wneud hyn.	Cytunwyd – diwygiwyd y CCA yn unol â hynny
Para 2.18	Yn y ddogfen Uchelgais Caerdydd ddiweddaraf, mae'r targed ar gyfer dinas 'fyw' wedi'i ostwng. Efallai y bydd angen ailysgrifennu'r CCA hwn mewn nifer o leoedd.	Cytunwyd – gwnaethpwyd newid
Paras 3.5 i 3.10	Yn gyffredinol, nid oes llawer i'w wrthwynebu yn y CCA hwn. Fodd bynnag, ceir problem fawr ym Mhennod 3, sydd ychydig mwy na chyfres o ystrydebau, heb unrhyw synnwyr o sut i'w gorfodi. Mae natur pen agored y CCA hwn felly'n peryglu creu mwy o fylchau nac y mae'n eu cau.	Cryfhawyd y CCA fel y mae'n amlinellu'n glir ystyriaethau y mae'n rhaid i ddatblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu
Para 3.10.7	Er ein bod yn croesawu'r canolbwynt ar greu amgylchedd sy'n deall demensia, mae'n ddrwg gennym nad oes cyfeiriad tebyg i'r rhai hynny sydd namau ar eu golwg neu namau synhwyrol eraill. Dyma ddiolfalwch sylweddol gan nad yw deddfwriaeth yn trafod yr holl agweddau ar amgylchedd wedi dylunio, ond gall gael effaith mawr ar y rhai hynny y mae namau synhwyrol yn effeithio arnynt ac yn methu â bodloni anghenion Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.	Ychwanegwyd adran newydd ar namau synhwyrol
Cyffredinol	Fel sylw cyffredinol, rydym yn teimlo bod y diffyg cyfeiriad at y seilwaith y mae ei angen ar gyfer y chwyldro ceir electronig sy'n dod i'r amlwg yn fethiant mawr. Nid oes cynllunio i drigolion nad	Nid ystyrir bod y mater hwn yn rhan o gyfrifoldebau'r CCA



	oes ganddynt fynediad i dramwyfa a felly na allant wefru ceir electrïg neu geir hybrid (efallai y maent yn byw mewn fflatiau neu strydoedd wedi'u poblogi'n fawr heb lawer o barcio ar y stryd).	
Cyffredinol	Rydym yn canmol y bwriad y tu ôl i'r CCA ac yn croesawu gwaith i'w datblygu. Fodd bynnag, wedi'i adolygu, rydym yn credu bod angen gwneud mwy o waith iddo a bod cyfleoedd enfawr i'w gryfhau. Ar hyn o bryd, mae'n gwybodaeth digysylltiad mewn rhannau, gallai fod yn glirach o ran ei gyfeiriad at ddarllenwyr ac mae'n methu rhywfaint o adnoddau defnyddiol a allai gynorthwyo datblygwyr a'r holl rhandeiliaid cysylltiedig.	Cytunwyd – adolygwyd strwythur y ddogfen i roi cyfeiriad clirach i ddarllenwyr ac ychwanegwyd dolenni ychwanegol i adnoddau i gynorthwyo datblygwyr a rhandeiliaid
Cyffredinol	Er ei fod yn cyfeirio at ffactorau iechyd ehangach ac yn cynnwys Map Iechyd Barton a Grant, mae'n cynnwys ac yn gwneud cysylltiadau clir iawn â gwasanaethau gofal iechyd ac iechyd corfforol. Gallai hyn atgyfnerthu'r syniad bod iechyd yn fiogorfforol, bod salwch a gwasanaethau iechyd wedi'u cysylltu...nad yw'n fwriad y map iechyd. Mae iechyd yn ymwneud â llawer mwy na iechyd corfforol, salwch a chlefyd a'r angen a wasanaethau i drin y rheiny. Mae'n <i>iechyd a lles corfforol, cymdeithas a meddwl</i> . Gallai'r ddogfen wneud y cysylltiadau hyn yn llawer mwy clir a byddwn yn awgrymu ailenwi'r CCA yn ' <i>Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant</i> ' – byddai hyn hefyd yn cryfhau'r cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Deddf WCFG).	Cytunwyd – ychwanegwyd cysylltiadau ychwanegol at y ddogfen i wneud cysylltiadau at iechyd cymdeithasol a meddwl yn fwy clir ac ailenwyd y ddogfen yn "CCA Cynllunio ac Iechyd a Llesiant"
Para 5.1	Yn gyffredinol, gallai Deddf WCFG fod yn bwysig iawn o ran fframio'r ddogfen hon gan mai hwn yw'r cerbyd deddfwriaethol ar gyfer "Iechyd ym Mhob Polisi yng Nghymru" ac yn cynnig yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer polisiâu a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys datblygu economaidd yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r ddogfen hon yn trafod nifer o'r anghenion "beth" i fynd i'r afael â nhw ynghylch iechyd mewn cynllunio ond nid yw'n mynd i'r afael â'r "sut" o ran pa brosesau fydd yn galluogi cyflawni canlyniadau iechyd gwell trwy'r system gynllunio. Oes posibilrwydd o gyflwyno canolbwynt mwy ar y ffyrdd o weithio yn y WCFG gan y cynllunwyr/datblygwyr megis ymgysylltu ag ystod o radeiliaid, gweithio mewn partneriaeth â nhw ac ymgynghori â nhw ar yr amser iawn a chyn gynted â phosibl? Yn yr un modd mae'n ymwneud â chynyddu cyfrifoldeb y GIG i ymgysylltu'n effeithiol	Cytunwyd – Cynhwyswyd testun ychwanegol i drafod y mater hwn

	gyda'r cynllunwyr/datblygwyr. Gallai rhai o bobl ddehongli'r mathau hyn o ddogfennau fod yr holl yr holl gyfrifoldeb yn cael ei gosod ar y cynllunwyr a'r datblygwyr.	
Para 2.8 i 2.10	Dylai Deddf Iechyd y Cyhoedd hefyd fod yn bwysicach yn y ddogfen. Fel arall byddai'n gyfle wedi'i fethu i gefnogi gweithredu AEI statudol. Bydd hyn yn lifer mawr yn y gwaith o gynllunio ar gyfer yr agenda iechyd.	Ychwanegwyd cyfeiriad at Ddeddf Iechyd y Cyhoedd ac AEI at y ddogfen.
Para 5.1 i 5.4	Rydym yn ystyried defnyddio fersiwn wedi ei haddasu o'r rhestr wirio ffactorau ehangach AEI fel dewis arall i'r Rhestr Wirio Cynllunio Dinesig Iach yn adran 5. Gallai hyn alluogi dull mwy cyson o wella dealltwriaeth rheng cynllunio ac iechyd. Trwy WHIASU, un o'n dibenion yw creu fframwaith ar gyfer arfer a deall HiAP a HIA a roddir ar waith yn gyson ledled Cymru, mae cael iaith gyffredin yn rhan o hynny, mae'r offer a ddatblygwyd gan WHIASU yn un o'r ffyrdd i wneud hyn. Gyda chyflwyniad HIA statudol, hybir yr 'iaith' hon ymhellach i ymwreiddio'n wirioneddol y ddealltwriaeth honno. Rwy'n meddwl y byddai'n dda pe bai hynny'n berthnasol mewn unrhyw ddogfennau polisi cysylltiedig i ymwreiddio y meddwl, yr agwedd a'r ddealltwriaeth hynny.	Nid ystyrir ei bod yn briodol i ddefnyddio'r rhestr wirio ffactorau ehangach HIA gan bod hon yn trafod materion y tu allan i gwmpas cynllunio. Mae'r rhestr wirio Cynllunio Dinesig Iach yn canolbwyntio'n fwy ar faterion cynllunio ac yn rhoi modd i weld y polisiâu yn y CDLI mabwysiedig yn glir.
Cyffredinol	Byddai llawer o adrannau'n cael eu cryfhau pe bai cyswllt ag adrannau o friff Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant gwell TCPA/WHIASU yn ogystal â chanllawiau uniongyrchol eraill ar gyfer cynllunwyr a datblygwyr. Byddai'r tabl ar dudalen 5 briff TCPA/WHIASU PAM....a'r pelenni ar y map iechyd ar dudalen 7 o gymorth. Adnoddau i gynnwys dolenni i: Gellir hefyd cynnwys y Rhestr Wirio AEI o Ganllawiau AEI Cymru <a href="http://www.whiasu.wales.nhs.uk">www.whiasu.wales.nhs.uk</a> ynghyd â'r dogfennau canlynol: 'Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell' TCPA a WHIASU 2016 <a href="http://www.whiasu.wales.nhs.uk">www.whiasu.wales.nhs.uk</a> Briff Tystiolaeth PHE a gyhoeddwyd yn ddiweddar <a href="https://www.gov.uk/government/publications/spatial-planning-for-health-evidence-review">https://www.gov.uk/government/publications/spatial-planning-for-health-evidence-review</a>	Cryfhawyd adrannau ac ychwanegwyd dolenni i adnoddau

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Polisi  
Cyngor Dinas Caerdydd  
Ystafell 219, Neuadd y Sir  
Glanfa'r Iwerydd  
Caerdydd  
CF10 4UW

[YmgynghoriadauCynllunDatblygu@caerdydd.gov.uk](mailto:YmgynghoriadauCynllunDatblygu@caerdydd.gov.uk)